AM DDIM

Cyfnodolyn yr Eglwys Fethodistaidd

Rhifyn 250 Hydref - Tachwedd 2024

# Gwyliedydd



# O'R GADAIR AR Y GOROR

gan y Parchedig **Jennifer Hurd**



Wrth imi fynd yn hŷn, byddaf yn meddwl mwy a mwy am bethau a ddywedodd Mam pan oeddwn i'n ferch fach. Mi ges i fy magu yn ystod y 60au a'r 70au, o dan gysgod y bom niwclear a bygythiad y Rhyfel Oer. Rwy'n cofio trafod y sefyllfa beryglus efo Mam, pan nad oeddwn ond rhyw saith oed, a dywedodd hithau, petai merched mewn grym fel arweinyddion a gwleidyddion, na fyddai rhyfel yn digwydd oherwydd fyddai mamau ddim yn anfon eu meibion i ffwrdd i ladd ac i gael eu lladd. Mi wnes i fyfyrio llawer ar ei geiriau. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd Margaret Thatcher yn Brif Weinidog y Deyrnas Unedig ac roedd dynion ifanc yn cael eu hanfon i'r Malvinas i ymladd yn erbyn yr Archentwyr. Bu'n rhaid imi ailasesu beth ddywedodd Mam am ferched, mewn tristwch a siom.

Ochr yn ochr â'r stori hon, hoffwn grybwyll rhywbeth a ddywedodd Mam am ei thad, fy Nhaid Alfie. Roedd Alfie yn y ffosydd yn Ffrainc yn rhyfel 1914-1918, a'i ddau frawd hefyd. Roedd fy Hen Wncl Alan yn 'boy bugler' – dyna hen ffasiwn mae'n swnio! Treuliodd Taid Alfie ei ben-blwydd yn 21 oed mewn ysbyty milwrol, yn dioddef o 'shell shock,' ac roedd ganddo atal dweud am weddill ei oes. Ond llwyddodd ef a'r ddau arall i ddod adref mewn un darn yn gorfforol. Sut, dyn a ŵyr. Priododd Alfie â Nain Lily, a chawsant fab, sef Wncl Don, eu plentyn cyntaf. Dywedodd Alfie yn syth y byddai Don yn mynd i weithio ar y tir, oedd yn 'waith neilltuedig', fel na fyddai byth yn profi beth brofodd Alfie ei hun yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd hyn yn y 30au cynnar, ac mae'n bur debyg bod Alfie yn gallu gweld beth oedd ar y gorwel.

Rydym yn agosáu at Sul y Cofio a Dydd y Cadoediad. Mae llawer ohonom yn gweddïo am heddwch, yn ogystal â chofio, ac rwy'n dweud yr ail stori uchod er mwyn ceisio pwysleisio nad oes gan neb fonopoli ar yr awydd am heddwch. Mae yr un mor bwysig i bawb, yn ferched a dynion. Mae'n siŵr eich bod yn cofio erthygl Angharad Tomos yn ei cholofn 'O'r Pen Yma' yn rhifyn diwethaf y Gwyliedydd. Gydag Angharad a gyda phawb eleni, rwy'n meddwl yn arbennig am y modd y cyflwynwyd i Calvin Coolidge, Arlywydd yr Unol Daleithiau, ddeiseb yn 1924 gan ferched Cymru i ferched UDA, yn galw ar yr UDA i ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd ac ymrwymo i heddwch rhwng gwledydd y byd. Llofnodwyd y ddeiseb gan 390,296 o ferched, a phob llofnod yn cael ei gasglu trwy gyswllt personol. Teithiodd trefnwyr lleol y ddeiseb filltiroedd, o dŷ i dŷ, o fferm i fferm, yn gofyn i ferched Cymru arwyddo. Roedd yn gamp anhygoel, ar adeg pan nad oedd gan bob merch yr hawl i bleidleisio. Aeth grŵp o ferched ar fordaith hir, dros Fôr yr Iwerydd, i gyflwyno'r ddeiseb i Coolidge. Anfonwyd y ddogfen – saith milltir o hyd, yn ôl y sôn – i Amgueddfa Smithsonian, i'w chadw'n ddiogel. Wnaeth yr Unol Daleithiau ddim ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd. Ond fe ddangosodd bron i 400,000 o ferched Cymru eu dymuniad am heddwch a chael byw yn heddychlon gyda'u cymdogion yn y byd. I mi, roedd y ddeiseb yn weddi ymarferol, yn troi geiriau yn weithred.

Nid 1924 oedd diwedd y stori – ddim o bell ffordd. Wedi'u hysbrydoli gan ferched Cymru, ym 1925 anfonodd arweinwyr nifer o eglwysi Cymru Apêl at Eglwysi'r Unol Daleithiau. Gofynnwyd i'r eglwysi yno am eu cefnogaeth er mwyn i UDA ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd, i sicrhau heddwch yn y byd. Ar yr adeg, dynion oedd holl arweinwyr eglwysig Cymru, wrth gwrs, a da yw eu gweld yn ategu lleisiau'r merched. Ar wahân i hynny, roedd Apêl arweinwyr yr eglwysi yn gam mawr ymlaen ym mywyd eciwmenaidd y wlad hon. Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, doedd yna ddim cydweithrediad swyddogol rhwng yr Anglicaniaid a'r Eglwysi Rhyddion. Mae rheswm da i gredu mai'r Apêl hon oedd yr enghraifft gyntaf o gydweithio eciwmenaidd rhwng yr Eglwyswyr a'r Anghydffurfwyr. Yn sicr byddai arweiniad o'r fath yn agor drysau i gydweithrediad rhwng capeli ac eglwysi lleol ac yn arwain at berthynasau mwy heddychlon yn eciwmenaidd. Tybed a yw'n ormod dweud, oni bai am Apêl y dynion, yn dilyn deiseb y merched, na fuasai gennym Cytûn sef Eglwysi Ynghyd yng Nghymru? Mae gweddïo, gweithio a byw dros heddwch yn alwad i bawb.

## Gweddi dros Heddwch yn y Byd

Dduw cariadus,  
Arwain ni o farwolaeth i fywyd,  
o anwiredd a chelwydd at y gwirionedd.  
Arwain ni o anobaith i obaith,  
Oddi wrth ofn at ymddiriedaeth.  
Arwain ni o gasineb i gariad,  
o ryfel i heddwch.  
Boed i dangnefedd lenwi ein calonnau,  
ein byd, a'n cyfanfyd. Amen.




# Gwyliedydd

**CYFNODOLYN CYMRAEG YR EGLWYS FETHODISTAIDD**

Sefydlwyd 1877  
– Cyfres Newydd 1987

**RHIF 250**  
**HYDREF – TACHWEDD 2024**

**Dylid gwneud sieciau yn daladwy i "Yr Eglwys Fethodistaidd – Cylchdaith Cymru"**

**(NID "i'r Gwyliedydd" os gwelwch yn dda)**

**BARN Y CYFRANWYR UNIGOL A FYNEGIR YN YR EITEMAU UNIGOL**

**GOLYGYDDION**  
**ROBIN JONES**  
LLYS ALAW,  
18 STAD ERYRI  
BETHEL,  
CAERNARFON  
GWYNEDD LL55 1BX  
Ffôn 01248 670140  
Ffôn symudol 07780 869907  
e-bost robinbethel@tiscali.co.uk

**FFION ROWLINSON**  
CRUD YR AWEL  
LÔN NEWYDD COETMOR  
BETHESDA,  
GWYNEDD  
LL57 3DT  
Ffôn 01248 605365  
Ffôn symudol 07554 958723  
e-bost ffion.rowlinson@trysor.f9.co.uk

**DYDDIAD CAU**  
6 TACHWEDD 2024





Llun y clawr: **David Pereiras Villagrá**

Dyluniwyd gan Ffrwd Cyfyngedig  
Argraffwyd gan Wasg y Lolfa



# Diolch

**Gwerthfawrogwn yn fawr y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at gostau cyhoeddi a dosbarthu'r *Gwyliedydd*.**

| | |
|---|---|
| Mrs M G Thomas, Penmachno | £15.00 |
| Dienw | £50.00 |
| Ardal Gwynedd a Môn | £500.00 |
| **Cyfanswm** | **£565.00** |

# Carreg Filltir

Gan ein bod gyda'r rhifyn hwn yn cyrraedd Rhif 250 yng nghyfres newydd y Gwyliedydd, penderfynwyd cael te i ddathlu'r ffaith honno! Daeth rhai o'r colofnwyr ffyddlon at ei gilydd i ddathlu parhad y Gwyliedydd, o 1877 (ac ar ei newydd wedd ers i Owain Owain ei ail-lansio yn 1987) hyd y presennol. Wedi cyfnod golygyddol Owain Owain, fe'i dilynwyd fel y gŵyr y cyfarwydd gan Angharad Tomos, Aled Morgan, Gwyndaf Roberts ac yna'r golygyddion presennol. Hoffem ddiolch o galon i bawb am bob cefnogaeth dros y blynyddoedd. Diolch i bawb sy'n anfon newyddion lleol fel y gallwn ni i gyd gadw mewn cysylltiad; i'r rhai sy'n cyfrannu ysgrifau a lluniau, yn rheolaidd neu'n achlysurol; i bawb sy'n helpu gyda dosbarthu'r cylchgrawn; i Wasg y Lolfa, ac yn flaenorol Wasg y Bwthyn, am eu gwaith dros y blynyddoedd; ac i Elgan Griffiths, Ffrwd Cyfyngedig, am waith dylunio medrus a chreadigol.



# Gweithredu Dros Blant

Hoffem ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at Gweithredu dros Blant, sydd wedi dod i law ers rhifyn diwethaf y Gwyliedydd:

| | |
|---|---|
| **Ebeneser, Treuddyn** | **£20.00** |
| **Salem, Pentre Helygain** | **£40.00** |
| **Mr Elfed Hughes** | **£43.85** |
| **Arian Rhydd** | **£1.15** |
| **Ardal Gwynedd a Môn** | **£200.00** |

Anfonwyd cyfanswm o £305.00 yn enw Cylchdaith Cymru.

Rydym bellach wedi lawnsio'r ymgyrch i gasglu anrhegion Nadolig a byddwn yn falch iawn o'ch cefnogaeth unwaith eto.

Gyda diolch am bob cyfraniad ac am eich cefnogaeth.  
**Marc a Margaret**  
Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF  
01978 756717 cwrteden@gmail.com

Action for Children  
Gweithredu dros Blant

# Ein Diolch a'n Dyled

## gan **Arwel Williams**

Mae cyfnod y Gwasanaethau Diolchgarwch o'n blaenau, ond mae pob addoliad a phob dydd yn gyfle inni ddiolch am ein bendithion, wrth gwrs. Wrth imi edrych yn ôl ar Wasanaethau Diolchgarwch fy mhlentyndod, roeddent i weld yn achlysuron pwysicach, rywsut, gyda chyfarfodydd yng nghanol yr wythnos yn ogystal â'r Sul. Roeddent yn bwysicach nid yn unig i selogion y capeli a'r eglwys ond yng ngolwg y gymdeithas ehangach hefyd. Mae cof gennyf o gymdogion na fyddent yn mynychu addoldy o un mis i'r llall ond a oedd yn sicr o fynychu Gwasanaeth Diolchgarwch. Pobl o bosib oedd yn y gorffennol wedi profi cyfnodau digon caled ac yn gwybod nad oedd bendithion y cynhaeaf i'w cymryd yn ganiataol.



Diolchgarwch am y Cynhaeaf oedd y teitl llawn, a byddai llond sêt fawr o gynnyrch cartref, llysiau a ffrwythau, boed o ffermydd lleol neu yn gynnyrch gerddi trigolion y pentref. Dros y blynyddoedd gwelwyd newid, gyda mwy o gynnyrch o dramor, ynghyd â thuniau o ffrwythau, ffa pob, pacedi bisgedi ac ati yn ymddangos, gan adlewyrchu newid mewn arferion siopa a bwyta, mae'n siŵr. Ond, o sôn am gynnyrch cartref, rhaid i mi gyfaddef nad wyf fawr o arddwr fy hun, er y byddaf ambell flwyddyn yn cael chwilen yn fy mhen a thyfu rhes neu ddwy o datws – wedi'r cyfan be all fynd o'i le efo tatws? Ac ambell dro byddaf yn fwy anturus a mentro ar resaid o bys. A thomatos. Yn anffodus, er iddynt gael eu dyfrio a'u bwydo ac er bod gen i'r holl geriach angenrheidiol, brigau cynnal ac ati, yn amlach na pheidio rhyw gynhyrchu gormodedd o ddail a wnaf yn hytrach na thomatos!

Mae'r holl law sydd wedi'n cyrraedd ni dros fisoedd yr haf eleni, ac sydd wedi esgor ar gymaint o gwyno, yn fy atgoffa o sgwrs a gafwyd mewn rhyw gynhadledd rai blynyddoedd yn ôl rhwng person o Brydain a merch o un o wledydd sychaf a thlotaf y byd. Pan esboniwyd wrth y ferch bod digonedd o ddŵr glân i'w gael yng nghartrefi Prydain dim ond i ni agor tap, roedd yn methu â deall pam ein bod, o dderbyn y fath fendith, heb fod ar ben ein digon ac yn fodlon ein byd.

Fe wyddom yn rhy dda bod y cynhaeaf yn gallu methu, neu gael ei rwystro rhag cyrraedd llawer, yn enwedig trigolion gwledydd tlotaf y byd, fel na fydd ganddynt gyflenwad diogel o fwyd, yn rhydd o ryfel, sychder a thlodi. Cawn ein hatgoffa o hyn yn ddyddiol drwy'r cyfryngau a'r nifer fawr o apeliadau am gymorth a chyfraniadau. Nid oes modd pledio anwybodaeth heddiw fel yn yr oes a fu.

Pan oeddwn yn iau byddai rhyw deimlad anghyfforddus yn fy nharo ar adegau wrth ddiolch i Dduw am gynhaeaf llawn ac am ei ofal cyson drosom, fel pe bai Duw yn ein ffafrio ni ond yn anwybyddu trigolion tlotaf y byd. Wrth gwrs, sylweddolaf gymaint mwy yw ein dyletswydd i ddiolch yng nghanol ein digonedd, ac yn sicr ni ddylem fod â chywilydd o hynny cyn belled â bod ein diolch yn cynnwys teimlad o ddyled, oherwydd onid ymdeimlad o ddyled yw gwir ddiolchgarwch. Boed i ni beidio â bod yn rhy brysur yn mwynhau ein bendithion i anghofio hynny, nac yn rhy brysur i ddiolch am bob cyfle a ddaw i'n rhan i ddod ag ychydig o'r cynhaeaf i eraill.

*Arglwydd, maddau'n difaterwch*
*at ddiodde'r gwledydd draw*
*lle mae'r wybren glir yn felltith*
*a'r dyheu am fendith glaw:*
*lle bo loes boed i'n hoes*
*adlewyrchu golau'r groes*

*Arglwydd, maddau in anghofio'n*
*dyled i holl dlodion byd,*
*ni, sy'n dathlu aberth Iesu,*
*ni, a brynwyd ganddo'n ddrud;*
*rhown yn rhad heb nacâd*
*fel y cawsom gan ein Tad*

*Siôn Aled*

# Dysgu Cymraeg

## gan **Angharad Tomos**




Un **arferiad** yr wyf wedi ei gadw ers pan yn 14 oed yw cadw **dyddiadur**. Wnes i ddechrau cadw dyddiadur wedi darllen llyfr enwog Anne Frank. Dydw i ddim yn credu ei fod yn rhywbeth mor ffasiynol **y dyddiau hyn**.

Mae pobl yn sgwennu yn **ddyddiol**, ond ar ffurf arall. Maent yn sgwennu ar Facebook neu yn cadw **cyfrif** Instagram, ac yn **cofnodi** eu bywyd, ond **ar ffurf gyhoeddus**. Sgwennu er mwyn i bobl eraill ei ddarllen **a wnawn**. Ac yn hyn o beth, mae yna dipyn o waith **golygu**. Dangos ochr **heulog** ein bywydau a wnawn, a **chuddio'r** ochr ddiflas.

**Holl hanfod** dyddiadur hen ffasiwn yw cadw cofnod preifat. Y sgwennwr yw'r unig un **fydd yn ei weld**. O ganlyniad, does dim rhaid iddi **smalio**, does dim rhaid cadw wyneb. Caiff gadw cofnod cywir – o'r adegau hapus a'r adegau trist. Weithiau, mae'n therapi da iawn **chwydu'r** gwylltineb at y **byd a'r betws**, ac yna cau **clawr** y llyfr! **Droeon eraill**, cawn ail-fyw dyddiau da drwy eu rhoi **ar gof a chadw**.

Dwi'n addo i chi, does dim llawer o bethau difyrrach nag ail-ddarllen hen ddyddiadur a gweld fel mae pethau wedi newid, a chofio hen wynebau. Mae **cystal** ag albwm bob tamaid.

Yn ystod cyfnod Covid, rhoddais gynnig ar ffurf arall o ddyddiadur a'i alw yn **Llyfr Bendithion**. Roedd yn gyfnod mor ofidus fel y meddyliais y gallwn sgwennu brawddeg bob dydd o rywbeth y dylwn fod yn ddiolchgar amdano. **Fe dalodd ar ei ganfed.**

Mae cychwyn dyddiadur ar Ionawr 1af yn gamgymeriad – does fawr yn digwydd. **Rhowch gynnig** ar gychwyn un yn yr Hydref – a gweld beth ddaw.

**arferiad** – habit
**dyddiadur** – diary
**y dyddiau hyn** – these days
**dyddiol** – daily
**cyfrif** – account
**cofnodi** – to record
**ar ffurf gyhoeddus** – in a public form
**a wnawn** – we do

**golygu** – to edit
**heulog** – sunny
**c(h)uddio** – to hide
**holl hanfod** – the very essence
**fydd yn ei weld** – who will see it
**smalio** – pretend
**chwydu** – vomit
**byd a'r betws** – the whole world (idiom)

**clawr** – cover
**droeon eraill** – at other times
**ar gof a chadw** – on record (idiom)
**cystal** – as good
**bendithion** – blessings
**fe dalodd ar ei ganfed** – it paid rich dividends (idiom)
**rhowch gynnig** – give it a go

# "Mae Duw yn llond pob lle, presennol ym mhob man" – Menter Newydd Bathafarn

## gan **Elizabeth Jones**

Oherwydd problemau gyda chyflwr ein hadeilad, penderfynodd aelodau Bathafarn, Rhuthun symud i addoli mewn ystafell gyfforddus yn Llys Awelon sef fflatiau i bobl oedrannus yn y dref. Mae'n rhwydd i breswylwyr y fflatiau ymuno â ni ac felly cawn gyfle i estyn allan i'r gymuned. Ar ddiwedd yr oedfaon mae cyfle gwerthfawr i gael paned a chymdeithasu.

Heb amheuaeth, buaswn yn argymell i unrhyw gapel sy'n wynebu yr un math o broblemau â ni yn sgil dirywiad adeilad, y dylent ystyried gwneud penderfyniad tebyg os gallant. Mae wedi bod fel chwa o awyr iach i ni a gwelsom gynnydd yn y nifer sy'n addoli. Daw 15 i'r oedfa, sy'n nifer eithaf da yn yr oes sydd ohoni.

Clywais ambell un yn dweud fod "capel Bathafarn yn cau". Wel, nac ydi! Yr adeilad sy'n dod i ben. Mae'r achos yn parhau a hynny mewn dull newydd, cyffrous. Ambell un wedyn yn holi beth fyddwn ni'n ei wneud os bydd gwaith adnewyddu'n digwydd yn Llys Awelon. Ble'r ewch chi wedyn? Rydym yn ffyddiog y bydd rheolwyr Llys Awelon, sydd wedi bod mor gefnogol, yn darparu lle arall ar ein cyfer. Maent mor falch bod y preswylwyr yn cael cyfle i addoli a derbyn o'r Cymun Sanctaidd.

Cofiwch, mae elfen o dristwch o weld yr arwydd 'Ar Werth' ar gapel a thŷ Bathafarn, yn arbennig gan mai capel coffa Edward Jones o Fferm Bathafarn ger Rhuthun oedd hwn. Yn sgil y blynyddoedd rydym wedi dotio at hanes Edward Jones, un o sylfaenwyr Weselaeth Gymraeg, a'r sôn amdano ef a'i gyfeillion yn dathlu dyfodiad Wesleaeth drwy ganu'r emyn anfarwol 'Newyddion braf a ddaeth i'n bro'. Yn wir, bu'r emyn yma yn bwysig iawn i ni ac fe'i canwyd mewn sawl pasiant yn adrodd yr hanes. A chawn barhau yn awr i ganu'r un emyn mewn lleoliad newydd. Mae brodyr a chwiorydd Bathafarn yn parhau i gyd-addoli a'r achos yn parhau. Ni ellir cyfyngu Duw i unrhyw adeilad. Awn ymlaen yn ffyddiog i'r dyfodol a byddwn yn falch o groesawu unrhyw un ohonoch i ymuno â ni yn Llys Awelon lle cewch brofi o naws hyfryd.



# O'R PEN YMA

*gan Angharad Tomos*



Nawr ein bod yn gallu edrych yn ôl yn wrthrychol ar Haf 2024, bydd dau beth yn aros yn y cof. Un fydd Haf Eithriadol o Wlyb, a'r llall fydd y reiots hiliol ddigwyddodd yn Lloegr. Tra roedd hi'n wythnos o Steddfod yng Nghymru, bu golygfeydd treisiol ofnadwy mewn sawl rhan o Loegr, a'r cyfan yn seiliedig ar gasineb.

Rŵan, dydw i ddim mor naïf i feddwl bod Cymru yn wlad sy'n llifeirio o gariad a goddefgarwch, mae hen ddigon o hiliaeth dan yr wyneb yn Hen Wlad fy Nhadau, ond mae yn bwynt na chafwyd yr un gwrthdystiad milain yng Nghymru na'r Alban. Cofiaf fynd i'r Alban rhyw ddeng mlynedd yn ôl ac un o'r posteri cyntaf a welais oedd 'Refugees are welcomed here'. Mae datgan Cymru yn Wlad Noddfa yn bwysig. Mae cael llywodraeth sy'n dweud yn bowld 'Stop the Boats' yn gofyn am drwbwl.



Ein hymateb pwysicaf i Reiots Haf 2024 yw dysgu gwersi, a hybu hinsawdd o ddealltwriaeth a meithrin gwrth-hiliaeth. Rhaid i wrth-hiliaeth fod ar dop cwricwlwm ein hysgolion. Rhaid deall nad tramorwyr sy'n gyfrifol am dlodi yn ein cymdeithasau, ond pobl farus a'r methiant i rannu cyfoeth gwledydd Prydain yn fwy cyfartal.

Prif nod y protestwyr Ffasgaidd ddechrau Awst oedd creu ofn, ac yn yr achos hwn, cawsant lwyddiant diamheuol. Byddwn wedi dychryn am fy mywyd, ond petawn i yn Fwslim, byddwn yn poeni am fy einioes. Yr ymateb naturiol oedd mynd i guddio, ac aros tu ôl i ddrws caeedig tra gallwn. Nid dyna wnaeth Adam Kelwick, imam ym mosg Abdullah Quilliam yn Lerpwl. Yn hytrach, aeth allan at y dorf a dechrau rhannu bwyd. Meddai: "Ar y dechrau, roedd pobl yn ymateb fel petawn yn anweledig. Ond wnes i ddal ati i wenu a chynnig y bwyd a bod yn gyfeillgar, nes yn y diwedd, dyma rywun yn estyn allan ac yn derbyn y bwyd. Yna, dechreuodd pawb gymryd y bwyd, a dyma ni'n dechrau trafod. Rôn i'n eu holi, 'Beth yn hollol ydych chi'n protestio yn ei gylch?' Doedd gan neb ateb pendant. Roedden nhw jest yn rhwystredig."

Dwi'n tynnu fy het i Adam Kelwick. Wrth gerdded at y dorf, yn ei wisg fel imam, roedd yn mentro ei fywyd. O ystyried yr hinsawdd yn Lerpwl y noson honno, fyddwn i ddim wedi synnu petai'r dorf wedi troi arno, a'i gicio'n farw. Dwi'n ddiolchgar nad dyna ddigwyddodd. Roedd hi'n weithred ddewr.

Nid anobeithio a ddylem yn yr hinsawdd bresennol, ond gweithredu. Fel y dywedodd W Pari Huws yn ei emyn am yr Eglwys, 'Dysg hi i ofni byw yn esmwyth.' Rhaid inni gymryd y cam cyntaf, ac estyn ein dwylo allan mewn cymod. Fedr o ddim bod yn fwy anodd na'r hyn wnaeth Adam Kelwick ar y noson erchyll honno yn Lerpwl. Neu, fel y dywedodd Paul, 'Os dy elyn a newyna, portha ef; os sycheda, dyro iddo ddiod; canys wrth wneuthur hyn ti a bentyrri farwor tanllyd ar ei ben ef. Na orchfyger di gan ddrygioni, eithr gorchfyga di ddrygioni trwy ddaioni.'

# DIOLCH AM GAEL DATHLU

*gan Glyn Tomos*

Does dim byd gwell na chael cyfle i ddathlu rhyw gamp, achlysur neu garreg filltir arbennig. Mae'n rhoi modd i fyw i weld unigolyn neu unigolion yn derbyn cydnabyddiaeth haeddiannol am yr hyn maent wedi ei gyflawni.

Wrth i ni fynd mewn i dymor yr Hydref mae'n braf gallu edrych nôl i fis Awst eleni a chofio am y pleser anghyffredin a gefais wrth fynychu pedwar digwyddiad arbennig a chael cyfle i ddathlu.



Pleser o'r mwyaf oedd cael mynychu Eisteddfod Genedlaethol yn Rhondda Cynon Taf. Croeso cynnes gan bobl yr ardal oedd wedi gweithio mor galed i sicrhau bod gennym Brifwyl i lwyfannu ac arddangos ein diwylliant ar ei orau. Cawsom faes arbennig – un o'r goreuon eto yn ôl nifer o selogion yr Eisteddfod – a hynny yn creu awyrgylch braf a hamddenol i'r miloedd a heidiodd yno. Eto eleni dangosodd holl arlwy y Steddfod fod gennym artistiaid hynod o dalentog sydd yn gweithio ac yn ymarfer eu crefft yn galed ac yn haeddu pob llwyddiant a ddaw i'w rhan. Un uchafbwynt ymysg nifer oedd llwyddiant y bardd ifanc o Ddyffryn Nantlle, Carwyn Eckley, yn ennill y Gadair. Awdl nodedig a gonest y bydd tipyn o ddarllen a gwerthfawrogiad ohoni yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Troi am yr Alban wedyn i'r *Fringe* yng Nghaeredin sydd yn cael ei chynnal yno yn flynyddol am dair wythnos bob mis Awst ac sy'n ddathliad o greadigrwydd. Gwelir artistiaid talentog o bob cwr o'r byd yn perfformio yno ar lwyfannau bach a mawr ymhob cornel o'r ddinas hardd hon. Yn eu plith mae rhai artistiaid enwog a phrofiadol ym myd adloniant ac artistiaid newydd sydd yn gobeithio gwneud argraff ac enwau iddynt eu hunain trwy berfformio yno am y tro cyntaf. Ceir perfformiadau byw o bob math yn cynnwys theatr, comedi, dawnsio, syrcas, cabaret, sioeau plant, sioeau cerdd, arddangosfeydd a chyflwyniadau. Braf oedd cael cymysgu gyda chynulleidfaoedd niferus oedd yn gwerthfawrogi yr holl arlwy amrywiol, cofiadwy a chyffrous oedd ar gael. Roedd awyrgylch braf yr Ŵyl yn llenwi'r ddinas.

Yn ninas Bilbao yn Sbaen y cafwyd y dathliad nesaf. Heb yn wybod i ni roedd y ddinas yn dathlu diwylliant Gwlad y Basg dros naw diwrnod o ganol mis Awst ymlaen gan gynnal pob math o weithgareddau tan oriau mân y bore. Roedd bron pob stryd o'r ddinas yn rhan o'r dathliadau. Roedd yna awyrgylch cyfeillgar a hapus wrth i'r dorf enfawr ymuno yn y dawnsio gwerin ar un sgwâr, campau o bob math ar y strydoedd, stondinau bwyd ymhob man a cherddoriaeth fyw gan wahanol grwpiau yn dod o gyfeiriad sawl llwyfan perfformio. Uchafbwynt arall oedd y tân gwyllt yn goleuo'r ddinas bob nos. Profiad a hanner.

Roedd y pedwerydd a'r olaf o'r dathliadau yn nes at adref – dathlu pen-blwydd priodas aur Idris fy mrawd ac Ann ei wraig. Carreg filltir hynod a phawb yn ymfalchïo yn hapusrwydd y ddau a'u teulu gan rannu hanner can mlynedd o atgofion. Mae 50 mlynedd o briodas yn garreg filltir sy'n haeddu cael ei dathlu.

Er bod llwybr bywyd yn gallu bod yn anodd ac yn heriol ar adegau, mae'n bwysig ein bod ni yn dal ein gafael ar bob achlysur hapus a ddaw i'n rhan a'i ddathlu i'r eithaf.

# O'R LLAN

gan y **Canon Idris Thomas**

## YR YSGOL SUL

Pan fyddwch yn darllen hyn o lith bydd tymor newydd yr Ysgolion Sul wedi hen gychwyn. Mae dyled pawb ohonom i'r Ysgolion Sul yn enfawr a diolchwn am yr athrawon hynny ym more oes a roddodd eu hamser i'n dysgu a'n trwytho yn y Gair, bob Sul yn ddi-ffael. Diolchwn hefyd yn ein dyddiau ni am holl waith clodfawr y Cyngor Ysgolion Sul yng Nghymru, sy'n sicrhau bod deunyddiau cwbl arbennig ar gael.

I mi a fy nau frawd a'm dwy chwaer, dechreuodd y cyfan yn Eglwys fach Dinorwig ac un o'r athrawon ymroddedig yno oedd Beryl Jones, Hafoty Dinorwig. Roedd mor annwyl, tawel, hyfryd a charedig ac ni wnaf fyth ei hanghofio. Pan euthum i Gaernarfon yn gurad yn 1971 roedd Ysgol Sul Gymraeg Plwyf Llanbeblig yn cael ei chynnal bob pnawn Sul yn neuadd enwog "Feed my Lambs." Deuai llu o blant yno ac roedd cyfraniad a gwaith yr Henadur T.R.Owen, Bobby Haines, Mrs Walker ac eraill yn gwbl arbennig. Pan euthum yn offeiriad i Fro yr Eifl aeth fy hogiau sef Rhodri, Meilir ac Osian i Ysgolion Sul y capeli yn Nhrefor a chael croeso cariadus. Ym mhentref Llanaelhaearn bûm gydag eraill yn gyfrifol am sefydlu Ysgol Sul bentrefol ac roedd mynd mawr arni. Mwynheais fod yn gyfrifol am ddosbarth yr oedolion yno. Yn hytrach na bod yr Ysgol Sul yn rhywbeth ar wahân i'r Eglwys a'r Capel yno, byddem o dro i dro yn cynnal oedfaon rheolaidd dan nawdd yr Ysgol Sul ac mor bwysig oedd hynny.



## "CORAU EGLWYSIG YN WELL NA'R YSGOLION SUL"?

Y pennawd uchod yn y wasg dro yn ôl roes sbardun i mi sôn am Ysgolion Sul. Ar yr olwg gyntaf rhyw deimlad o annhegwch ddaeth drosof o ddarllen y geiriau. Daeth y pennawd yn sgil seminar dan nawdd Eglwys Loegr sef "Harneisio pŵer cerddoriaeth i genhadu". Wrth reswm, mae sawl dull a modd yn y bywyd Cristnogol o ymwneud â phlant a'r ifanc ac ni ddylid ystyried un math yn well na'r llall. Nid oedd côr Eglwysig fel y cyfryw yn addoldy fy mhlentyndod ond roedd caniadaeth safonol, uniaith Gymraeg serch hynny yn cael lle canolog. Roedd y diolch am hyn i organyddion hynod arbennig a roes o'u hamser a'u dycnwch. Pan oeddwn yn aelod o Gabidwl yr Eglwys Gadeiriol ym Mangor roedd gennyf y parch mwyaf i organyddion arbennig a medrus fel Andrew Goodwin a Martin Brown. Byddai Aled Jones yn amenio hyn! Cofiaf un o Ddeoniaid y Gadeirlan sef yr hoffus Ivor Rees yn sôn unwaith am deulu gwerinol o'r ddinas a gafodd eu bedyddio a'u conffyrmio yn dilyn derbyn un o'r plant i Gôr yr Eglwys Gadeiriol, a buont yn hynod ffyddlon wedyn i wasanaethau a digwyddiadau'r Gadeirlan. Ni wna wahaniaeth beth yw amgylchiadau neu ddosbarth cymdeithasol y teuluoedd, wrth i'r plant uno i ganu yn y côr. Yn y llyfr *Ail Gerddi Isfoel* a gyhoeddwyd yn 1965, ceir y penillion canlynol yr wyf yn hoff iawn ohonynt.

**YR YSGOL SUL**

Pan oedd un dilledyn rhyngom
  Yn y bwthyn llwm,
Hyfryd cofio mynd i'r cysegr
  Ar yn ail â Twm.

Mynnai mam fy nhrwsio'n barchus
  Yn fy ifanc oed,
Plannai adnod ar fy nhafod
  A chyfeirio 'nhroed.

Cofio fy hen athro annwyl
  A'i hyfforddiant taer
Yn cymhwyso egwyddorion
  Crist o'm cylch yn gaer.

Heddiw, o dan bwys blynyddoedd
  Gwedi llawer clwy,
Diolch, deil y gaer yn gyfan,
  Nid af drosti mwy!

# Bathafarn Bach

*Cylchgrawn Hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru | Rhif 13 – Hydref 2024*

## LLUNIAU SY'N ADRODD EIN HANES



Y llynedd yn *Bathafarn Bach* apeliwyd am luniau yn croniclo hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru – ac mae'r apêl yn dal yn agored! Diolch am yr ymateb a gafwyd hyd yma gan gyfeillion o sawl man. Mae pob llun yn rhan o'r stori. Os hoffech gyfrannu, gellir anfon lluniau yn electronig neu roi eu benthyg er mwyn eu sganio. Nid yw'r apêl yn gyfyngedig i luniau, chwaith, ac mae dogfennau eraill fel Planiau Cylchdeithiau a rhaglenni digwyddiadau hefyd yn rhan bwysig o'n hanes.

Er mwyn diogelu'r hanes a gynrychiolir gan y dogfennau a'r lluniau, byddant yn cael eu cadw yn ddigidol yng Nghasgliad y Werin <**https://www.casgliadywerin.cymru/**> sef y prosiect sy'n diogelu hanes pobl Cymru yn ddarluniadol. Am wybodaeth bellach, cysylltwch os gwelwch yn dda â Mr Robin Jones, Llywydd y Gymdeithas Hanes robinbethel@tiscali.co.uk neu Ms Menna Evans, Archifydd y Synod mennahevans@gmail.com

## Y GYMANFA GYMREIG (? Y DRENEWYDD 1953)

Yn *Yr Eglwys Fethodistaidd: Hanes Ystadegol* gan Eric Edwards (Gwasg Gomer 1980) rhestrir lleoliad y Gymanfa, enw'r Llywydd a thestun ei anerchiad, ar gyfer pob blwyddyn, o sefydlu'r Gymanfa yn 1899 nes iddi ddod i ben yn 1974. Nodir hefyd ble y gellir canfod yr anerchiad yn yr *Eurgrawn*. Eglura'r Parch. Eric Edwards yn gryno pa mor bwysig oedd y Gymanfa, a sefydlwyd ar batrwm y Gynhadledd Fethodistaidd Brydeinig. Yn y Gymanfa y byddai gweinidogion yn cael eu hordeinio i'r gwaith Cymraeg, gan Lywydd y Gymanfa a Llywydd y Gynhadledd. Deuai Llywydd ac Is-lywydd y Gynhadledd i'r Gymanfa yn flynyddol. Gwelir hefyd yn hanes y Gymanfa ddechreuadau cydweithio mwy clòs rhwng gwahanol ganghennau'r Eglwys Fethodistaidd yn ein gwlad. Dyma a ddywed y Parch. Eric Edwards: *"O 1967 hyd 1974 etholwyd i'r Gymanfa gynrychiolwyr o'r taleithiau Seisnig sydd ag eglwysi yng Nghymru o fewn eu ffiniau er mwyn cael Cymanfa a oedd yn cynrychioli holl waith Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru".*



## Hanes Rhyw Wesle: William Jones

Ganwyd William Jones (1887-1980) yn y Berllan Bach, Eglwysbach, yn un o naw o blant. Yn 12 oed aeth i weithio yn fferm Pengraig, yna bu'n feili ar fferm Tŷ Newydd, Llanelian. Yn ddiweddarach bu'n gweithio yn Adran Gerddi Cyngor Colwyn. Bu'n flaenor ac yn athro Ysgol Sul yn Horeb, Bae Colwyn, Cylchdaith Dyffryn Conwy ac yn 1974 derbyniodd Dystysgrif Anrhydedd a Medal Gee am ei ffyddlondeb. Tybed a ŵyr rhywun o'r darllenwyr rywfaint mwy o'i hanes? Mae ei Fedal yn ddiogel ym meddiant Llywydd y Gymdeithas Hanes, a fyddai'n falch o gael ei throsglwyddo i un o'r teulu, os gallwn gael hyd iddynt!









# Plan … Paratoi at Gymanfa … Parti yn Ebeneser, Treuddyn, 1950





"Na thaw, O Dduw fy moliant."

-- CYMANFA --
Undeb Ysgolion Sul Cylchdaith Caernarfon,
A gynhelir yng
NGHAPEL EBENESER,
CAERNARFON,
Dydd Sadwrn, Mai 9, 1936,
Am 2 a 5.30 o'r gloch.

SWYDDOGION Y PWYLLGOR.

Llywydd—Y Parch. R. JONES WILLIAMS, Caernarfon.
Trysorydd—Mr. WILLIAM J. HUGHES, Saron.
Mr. R. O. PRITCHARD, Ty Capel Salem (M), Tynlon, Llandwrog.

Arweinyddion a Llywyddion y Cyfarfodydd.


*Prynhawn :—*
Arweinydd :—Y Parch. R. LLOYD JONES, Llanberis.
Llywydd :—Mr. GWYN JONES, Llanberis.

*Hwyr :—*
Arweinydd :—Y Parch. T. IDWAL DAVIES, M.M., Penygroes.
Llywydd :—Mr. IDRIS JONES, Porth Dinorwig.

Arweinydd Cerddorol—
Mr. WM. ROBERTS, B.Sc., L.R.A.M., Llanberis
Cyfeilwyr Ebeneser, Caernarfon.

*Pris : Ceiniog.*

Argraffwyd gan H. W. Jones, Stryd Fawr, Caernarfon.



PLAN CYLCHDAITH CEFN MAWR, 1962-63

| Lleoedd | Oriau | TACHWEDD 4 | 11 | 18 | 25 | RHAGFYR 2 | 9 | 16 | 23 | 30 | IONAWR 6 | 13 | 20 | 27 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GORFFWYSFA, CEFN MAWR, Nos Iau. | X½ VI VII | ER 9 C.G. | 1 1s | 10 31 | 4 4 | CY CY C.G. | 27 5 | C.ch 24 | 30 C | 1 32 | 10 28 C.G. | 1 1 | 31 5 | 24 7 |
| HOREB, RHOS, Nos Iau. | X VI VII | CP CP C.G. | 11 11 | 1 10 | 12 12 | 13 13 C.G. | 14 14 | 1 1s | 8 1 | 15 15 | 1s 29 C.G. | 11 11 | 16 16 | 17 17 |
| SOAR, STRYT ISA, Nos Fawrth. | X VI VII | 1 MH C.G. | 18 18 | 10 1s | 19 19 | 8 ER C.G | 20 20 | 10 MJ | 4 5 | 21 21 | 29 1s C.G | 22 22 | 5 1 | 11 11 |
| CARMEL, PLASBENION, Nos Wener. | X VI VII | Y 10 C.G. | Y 10 | Y 10 | Y 7 | Y 10 C.G | Y 10 | Y 10 | Y 10 | Y 33 | Y 10 C.G. | Y 10 | Y 10 | Y 1 |
| JERWSALEM, JOHNSTOWN Nos Fawrth | X½ VI VII | 9 1s C.G. | 23 23 | 10 24 | 25 25 | 10 7 C.G | 5 27 | RW 26 | 1 30 | 9 1s | 28 MH C.G | 5 5 | 1 31 | 1s 24 |

1—Cyfarfod Chwarter yn Soar, Stryt Isa, nos Iau, Ionawr 3, 1963, am 7.
2—Cyfarfod Pregethu Blynyddol, Horeb, Rhos, nos Sadwrn a'r Sul, Tachwedd 3 a'r 4. Pregethir gan y Parch J. Haines Davies, Aberystwyth. Nos Lun, Tach. 5, pregethir gan y Parch. Daniel Davies, Coedpoeth.
3—Bore Sul, Tachwedd 18, am 11 o'r gloch, darllediad o Horeb, Rhos.
4—Sul Dinasyddiaeth Cristionogol—Tachwedd 18.
5—Casgliadau'r Genhadaeth Dramor i'w gorffen erbyn Rhagfyr 17.
6—Pan fetho pregethwr a chadw ei gyhoeddiad gofaled am bregethwr teilwng yn ei le.
7—Evening services at Plasbenion are English.

C.P.—Cyfarfod Pregethu; S.Ch.—Sul y Chwiorydd; C.Y.—Cyf Ysgol; S.—Swper yr Arglwydd; C.Ch.—Cyfarfod Gweddi'r Chwiorydd; C—Carolau.

PREGETHWYR, Etc.

1—D. T. Rees, B.A.
2—G. M. Gruffydd, Llangollen.
3—E. Morris, Johnstown.
4—D. W. Williams, Stryt Isa.
5—J. W. Jones, Stryt Isa.
6—Thomas Hughes, Stryt Isa.
7—C. T. Hughes, Trefor.
8—Thomas K. Jones, Johnstown.
9—Rowena Jenkins, Johnstown.
10—Trefniant Lleol.
MH.—M. D. Hughes, Cefn Mawr.
T.W.—Thomas Williams, Stryt Isa.
E.R.—E. Roberts. Cefn Mawr.
M.J.—Mair Jones, Rhos

O GYLCHDEITHIAU AC EGLWYSI ERAILL.

11—J. T. Jones, M.A., Rhos
12—A. R. Jones, Ruabon
13—D. Roberts, Rhos
14—T. E. Lloyd, Ponciau
15—R. J. Owen, Pontfadog
16—Parch J. Edryd Jones, Rhos
17—Carey Jones, B.A., Wrexham
18—Gareth Jones, B.A., Penycae
19—T. W. Jones, Y.H., A.S. Rhos
20—Maelor Griffiths, Rhos
21—Trefor Griffiths, Rhos
22—T. H. Glyn Hughes, B.A.
23—John Edwards, Rhos
24—Emlyn Davies, Johnstown
25 Sister H. Knapper, L'pool
26—V. K. Preston, Johnstown
27—A. Sheldon, Acrefair
28—G. Jones, B.A., Amwythig
29—Ernest Williams, Y Waun
30—Mary Wilcox, Birmingham
31—F. A. Richards, Acrefair
32—Alun Davies, Ruabon
33—T. A. Bowen, Trevor

## Rhai o'n gweinidogion



Y Parchedigion Glyn Williams, Emrys Evans, Arthur Mason, J. Roger Jones, Gwyn Jones ac Ifor Jones, adeg dathlu Trydydd Jiwbilî Capel y Waun, Penisa'r-waun yn 1958.



Y Parchedig John Lewis (1885-1965) a'i ddau fab, Meilir (1919-1997) ac Iwan (1925-2014)

# TEULU CERDDOROL Y GWYNFRYN

### gan Emyr Evans

Canrif a mwy yn ôl, asgwrn cefn nifer o'n capeli oedd y teuluoedd mawr oedd yn bod bryd hynny. Un enghraifft o hyn oedd y teulu Carrington yn y Gwynfryn, Cylchdaith Coedpoeth.

Ganed John Carrington yn 1852 yn y Mwynglawdd (Minera) ac wedi iddo ddod o dan ddylanwad John Evans, Eglwysbach bu'n aelod yng nghapel Penybryn yn y pentref. Tua 1875, gan fod Penybryn yn ffynnu, daeth galw am sefydlu achos ychwanegol yn y Gwynfryn (rhyw filltir i ffwrdd). Y ddau brif ysgogydd oedd John Carrington a William Griffiths. Ar y dechrau cafwyd anhawster i ganfod darn o dir addas ond pan ddeallodd Francis Carrington, tad John a gwrandäwr ym Mhenybryn, addawodd yntau roi darn o dir yn rhad ac am ddim i godi capel arno. Gwerth y tir oedd £40. Cyn agor y capel newydd yn 1882 bu cyfarfodydd mewn tŷ annedd ac yn yr awyr agored. Penodwyd John Carrington a David Kelly yn flaenoriaid. Parhaodd John yn y swydd am weddill ei oes a rhoddodd wasanaeth ffyddlon i'r capel, y Gylchdaith a'r gymuned. Yn 1877 ymbriododd John â Winifred Roberts, Bryneglwys. Enw eu cartref oedd Nant y Glyn ac yno y magwyd y teulu.

Roedd canu yn hollbwysig i'r teulu hwn o Wesleaid pybyr. Deuai unawdwyr amlwg i Nant y Glyn i ymarfer ar gyfer rhai o eisteddfodau'r cylch yn Rhiw Iâl, Treuddyn, Coedpoeth, Corwen a'r Rhos. Byddai'r teulu ac aelodau eraill y capel yn edrych ymlaen yn frwdfrydig at gymanfaoedd canu'r Gylchdaith a chyn oedfaon nos Sul arferent ymgynnull ar y Boncyn, nepell o'r capel, i ymarfer y tonau. Mae'r Parchedig Tegla Davies yn cofio am y Gwynfryn pan oedd yn bregethwr ifanc ar y gylchdaith a dyma a ddywed yn ei lyfr hunangofiannol *Gyda'r Blynyddoedd:* "Eglwys y Gwynfryn oedd un o'r rhai anwylaf gennyf o'r deunaw eglwys yn y gylchdaith. Hi oedd un o'r eglwysi mwyaf byw, eiddgar, cynhesol, hawsaf i bregethu ynddi, y bu a wnelwyf â hwy erioed".

Tynnwyd y llun hwn o'r teulu Carrington tua 1905 neu 1906. Gyda'r rhieni, **John a Winifred Carrington**, gwelir yn y rhes flaen **John Iorwerth** a aned yn 1900. Bu ef a'i wraig yn aelodau ffyddlon yn Rehoboth, Coedpoeth. Yna **Sinah**, a aned yn 1879 – hithau hefyd yn ffyddlon a gweithgar yn Rehoboth. Priododd ag Edward Jones, pregethwr cynorthwyol. Ar y dde y mae **Tom**, a aned yn 1881, arweinydd poblogaidd, cyfansoddwr a beirniad eisteddfodol. Bu'n organydd yn y Gwynfryn am bymtheg mlynedd ac yna yn Rehoboth am dros hanner canrif.

Yn y rhes gefn ar y chwith y mae **Gwladys** (g. 1892) a arhosodd yn y Gwynfryn ac a fu'n organydd ffyddlon am flynyddoedd lawer. Yna **Robert Francis** (g. 1883), a symudodd i Benbedw ac a fu'n flaenor a chodwr canu yn eglwys Claughton Road. Roedd yn meddu ar lais canu arbennig. Ar y dde iddo, **Maria** (g.1886) a ymfudodd i Ganada, hithau yn unawdydd rhagorol. Yna **Barbara Winifred** (g. 1888) a **Margaret Alice** (g. 1890). Yn drychinebus bu farw'r ddwy hyn yn ifanc iawn. Ar y dde eithaf, **Elizabeth Ann** (g. 1894). Yn drist iawn



collwyd un plentyn, **Mary Elizabeth,** yn ddeunaw mis oed yn 1878. Erbyn 1920 roedd John a Winifred wedi colli pedwar o'u plant ond ni phallodd eu ffydd.

Yn wyth mlwydd oed dechreuodd Mair, merch Gwladys a'i gŵr Evan Henry Jones, chwarae'r organ yn y capel. Gwasanaethodd ei chwaer Menna hefyd fel organydd. Mae Mair yn parhau traddodiad cerddorol y teulu gan arbenigo ym myd cerdd dant. Bu'n arwain Parti'r Ffin a chorau eraill ac yn beirniadu mewn eisteddfodau. Bu Mair yn organydd yng Nghapel y Groes, Wrecsam ac yn un o organyddion Capel Rhos y Gad, Llanfairpwll.



Teulu Carrington c 1905/1906

# Capel Ni
## yn Eglwys Iesu

## Ebeneser, Dolgellau

**LLONGYFARCHIADAU**
Llongyfarchiadau i Gwyn a Menna Lloyd Jones ar ddathlu eu Priodas Aur. Priodwyd hwy yn Ebeneser Dolgellau ar 27ain Gorffennaf 1974 o dan arweiniad y Parchedig Cyril Lloyd. Yn ein gwasanaeth ar ddydd Sul yr 28ain Gorffennaf, dan arweiniad y Parchedig Patricia Grudgings, llongyfarchwyd hwy a dymunwyd yn dda iddynt gydag ychydig eiriau a gweddi, a chyflwynwyd planhigyn hardd iddynt ar ran yr aelodau er mwyn nodi'r achlysur arbennig.



**CYFARCHION PEN-BLWYDD**
Llongyfarchiadau i Mrs Kath Owen ar ei phen-blwydd yn 90 ar y 12fed o Awst. Mwynhawyd paned a chacen i ddathlu'r achlysur yn dilyn y gwasanaeth ar y 15fed o Fedi.

**COFION**
Estynnwn ein cofion at Mrs Doreen Thomas sydd wedi bod yn Ysbyty Bronglais yn ddiweddar ond wedi dychwelyd adref erbyn hyn. Hefyd at Ron Phillips sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Rydym yn meddwl hefyd am Mrs Mary Davies nad yw ar hyn o bryd yn ddigon da i ymuno â ni yn y gwasanaeth ar fore Sul.
**GOHEBYDD .** BERYL NORGROVE

## Ardal Bathafarn

**GWELLHAD BUAN**
Anfonwn ein cofion anwylaf at Audrey Jones a Stephen Griffiths, y ddau wedi bod yn yr ysbyty. Meddwl amdanoch.

**PROFEDIGAETH**
Gyda gofid y clywsom am farwolaeth Val, Tŷ Bathafarn, ac estynnwn ein cydymdeimlad diffuant at ei merch a'r teulu. Roedd gan Val bersonoliaeth arbennig, llawn gwybodaeth a hiwmor. Roedd yn ddawnus iawn gyda gwaith gwnïo a gwnaeth sawl ffrog briodas; byddai llawer yn mynd â gwaith pwytho ati dros y blynyddoedd. Roedd Val yn hoff iawn o anifeiliaid ac fe enillodd gyda cheffylau mewn sawl sioe. Yn ystod cyfnod tywyll y pandemig braf yw cofio amdani yn gosod tedi bêrs yn ffenestri Tŷ Bathafarn fel arwydd o obaith. Byddai bob amser yn groesawus ac yn ystod dathliad 150 mlynedd y capel yn 2019 croesawodd blant cyn-weinidogion a fu'n byw yn Nhŷ Bathafarn pan oedd yn fans y gylchdaith, iddynt gael ailymweld â'r tŷ lle roeddent wedi tyfu fyny.
Mae ein cydymdeimlad hefyd yn mynd at Marian a Gwyn Thomas, Corwen, o golli brawd a brawd yng nghyfraith, ac at Rob ac Edwina Stephen, hwythau wedi colli brawd a brawd yng nghyfraith yn Norfolk. Meddyliwn amdanoch yn eich hiraeth am anwyliaid.

**PEN-BLWYDD**
Dymuniadau gorau am bob bendith a hapusrwydd i Eirlys Dwyryd ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn 80 oed. Mae'n braf ei gweld yn ymuno â ni mewn oedfaon yn Llys Awelon.

**OEDFAON**
Hyfryd oedd cael dod at ein gilydd i addoli yng ngwahanol gapeli Rhuthun. Bu'r Parch Alun Morton Thomas yn arwain gwasanaeth yn y Tabernacl; y Parch Marc Jon Williams yn Heol y Parc; y Parch Robert Parry, hefyd yn Heol y Parc trwy drefniant Capel Bathafarn; a'r Parch Aled Lewis Evans yng nghapel Pendref. Llawer o ddiolch iddynt am eu cenadwri gwerthfawr. Bu'r Parch Jennie Hurd a Llinos Mary Jones yn cynnal oedfaon yng Nglyndyfrdwy. Diolch iddynt hwythau hefyd.
**GOHEBYDD .** ELIZABETH JONES

## Ebeneser, Trefor, Môn

**CYDYMDEIMLO**
Ym mis Gorffennaf bu farw Mrs Margaret Owen a hithau'n 91 oed. Cafodd ei magu yn Nhrefor a'r teulu wedi bod yn aelodau yn Ebeneser ers blynyddoedd lawer. Hi oedd ein haelod hynaf. Bu gwasanaeth yn yr amlosgfa ym Mangor dan ofal y Parchedig Gerallt Lloyd Evans. Cydymdeimlwn â Paul, ei mab a fu mor ofalus o'i fam, a'r teulu i gyd yn eu colled.

**GWELLHAD BUAN**
Dymunwn yn dda i Mr Arthur Jones sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbyty yn Lerpwl. Mae Arthur yn un o'n haelodau ffyddlon ac mae bob amser yn braf clywed ei lais gan ei fod yn ganwr da.

**CROESO NÔL**
Ar nos Sul braf ym mis Awst aeth rhai ohonom i gapel Maelog Pencarnisiog i ymuno yn yr oedfa. Roedd y gwasanaeth yng ngofal ein cyn-weinidog, y Diacon Stephen Roe a hyfryd oedd bod yn ei gwmni ef a'i wraig Angela. Mae wyth mlynedd ers iddo adael Ynys Môn ond mae'n cael llawer o'n hanesion gan ei fod yn derbyn y *Gwyliedydd*!
**GOHEBYDD .** CARYS THOMAS

## Pendref, Dinbych

**BLWYDDYN GYFUNDEBOL NEWYDD**
Dyma ni'n dechrau blwyddyn gyfundebol arall yn hanes capel hanesyddol Pendref – mae'n braf meddwl ein bod ni yma o hyd ar ôl 222 o flynyddoedd. Bu misoedd Gorffennaf ac Awst yn eithaf distaw; er cawsom oedfaon bendithiol dan ofal Dilwyn Jones a Royce Warner a dau gyfarfod gweddi dan ofal rhai o aelodau'r eglwys. Ein harferiad yma yw cynnal oedfaon undebol ym mis Awst a buom yn cyd-addoli yn y Capel Mawr, Capel Lôn Swan, Capel Unedig y Fron a'r Brwcws ac yma ym Mhendref pan gawsom oedfa arbennig dan ofal ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan. Diolch i'r blaenoriaid, Medwyn Jones a Hywel Evans, ac i Vera Savage, Beti Roberts a Marjorie Williams am gyfeilio a Gwyn Williams am arwain y canu.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Selwyn Rees ar ôl triniaeth yn yr ysbyty a dymunwn yn dda i'n holl aelodau sydd am wahanol resymau yn methu â bod gyda ni.
**GOHEBYDD .** MARY JONES

## *Salem, Rhyd y Foel*

**PROFEDIGAETH**

Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Mr John D Roberts, Fferm Ty'n Ddol Dolwen. Roedd John yn aelod ffyddlon yn Salem wedi i'r achos ddirwyn i ben yn Y Dawn. Bu yn fregus ei iechyd am beth amser ond parhaodd i fynychu y gwasanaethau hyd at ychydig fisoedd yn ôl pan gafodd ei gymryd i Ysbyty Glan Clwyd lle bu farw ar Awst 14eg. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yr un yw ein cydymdeimlad â Mrs Iola Roberts, Plas Onn ym marwolaeth ei brawd Mr Alun Roberts, Fferm Peulwys, Hen Golwyn.

**YR YSGOL SUL**

Braf iawn ar yr 2il o Fedi oedd gweld Mari, Gwil, Morgan, Cadi ac Ina yn awyddus i ddod yn ôl i'r Ysgol Sul wedi gwyliau'r haf. Diolch o galon i Anna am eu harwain ac edrychwn ymlaen at eu cyfraniad yn ein gwasanaethau arbennig yn ystod y misoedd nesaf.

**LLWYDDIANT**

Llongyfarchiadau i Cadi Mai Pegg ar ei llwyddiant yn arholiadau Blwyddyn 10 TGAU ac i Steffan Arfon Roberts ar ei lwyddiant yn arholiadau lefel A. Dymuniadau gorau i Steffan yn y brifysgol yng Nghaerdydd. Pob dymuniad da i'r ieuenctid i gyd wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol i ddechrau blwyddyn newydd.
**GOHEBYDD .** SIÂN PRICE

## *Bethel, Deganwy*

**CEFNOGI GRŴP CYMORTH CANSER**

Daeth nifer dda ynghyd ym Methel ar fore Sadwrn 10 Awst i gefnogi bore coffi Grŵp Cristnogol Cymorth Canser Ardal Conwy. Trwy ymdrechion pawb, fe lwyddwyd i godi swm anrhydeddus iawn sef £263.90 i Gronfa Canser Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd, Bangor. Enillwyd cystadleuaeth dyfalu pwysau'r 'Hamper Sawrus' gan y chwaer Doreen o Fethel. Cafwyd mwynhad mawr o wrando ar gerddoriaeth ar y ffidil gan Robert Tennant, aelod newydd yng nghapel Preswylfa, Cyffordd Llandudno. Diolch yn fawr i Robert am y cyfraniad hwn a diolch hefyd i frodyr a chwiorydd Bethel am ofalu am y lluniaeth, yn enwedig y cacennau cartref blasus. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn arian, adnoddau ac amser i wneud yr achlysur yn un mor llwyddiannus.
**GOHEBYDD .** OWIE MORRIS





## *Ebeneser, Treuddyn*

**COFION A DYMUNIADAU GORAU**

Anfonwn ein cofion at bawb sy'n methu mynychu oedfaon ar hyn o bryd oherwydd gwaeledd. Dymunwn wellhad buan i chwi i gyd.

**GWASANAETHAU**

Gyda thymor yr Hydref wedi cyrraedd, edrychwn ymlaen at ein Cyfarfod Pregethu a gynhelir ar nos Sul, Medi 8fed pan fydd y Parchedig Robert Parry yn gwasanaethu. Bydd Cymanfa Ganu Undebol yr ardal yn cael ei chynnal yng nghapel Soar, Nercwys eleni am 6 yr hwyr ar Fedi 29ain pan fydd Mr Dewi Hughes yn arwain. Cynhelir ein gwasanaeth Diolchgarwch am 6 o'r gloch nos Sul, Hydref 13eg dan ofal y Parchedig Robert Parry. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau hyn. Gyda'r awr yn newid ddiwedd mis Hydref bydd amser ein gwasanaethau yn newid i'r prynhawn. Felly, ar ddydd Sul, Hydref 27ain bydd y Diacon Lisa Rathbone efo ni am 2.30yp.

**PRYNHAWN PANED A CHACEN**

Ar ddydd Sadwrn, Hydref 12fed am 3 y pnawn byddwn yn cynnal Prynhawn Paned a Chacen yng Nghanolfan Hafan Deg, Treuddyn. Edrychwn ymlaen at groesawu yn gynnes iawn bawb fydd yn ymuno â ni, a chael sgwrs efo ffrindiau hen a newydd.
**GOHEBYDD .** GLENYS DAVIES

## *Shiloh Newydd, Tregarth*

**BLWYDDYN NEWYDD**

Ar ddechrau blwyddyn newydd mae'n braf cael croesawu pawb i'r oedfaon yma yn Shiloh Newydd. Er na chynhaliwyd oedfaon yn ystod mis Awst, bu Drws Agored ar fore Gwener mor brysur ag erioed gyda nifer dda o drigolion y pentref a rhai o'r tu allan i'r ardal yn troi mewn am sgwrs, paned a chwmpeini. Cofiwch fod croeso i bawb ddod draw rhwng 10 a 12 o'r gloch bob bore Gwener.

**DYMUNIADAU GORAU**

Braf yw cael croesawu dau o ffyddloniaid y capel yn ôl wedi cyfnod mewn ysbyty. Cafodd Helen Wyn lawdriniaeth ar ei phen-glin a threuliodd Islwyn Evans gyfnod hefyd yn Ysbyty Gwynedd. Mae Anwen Griffiths wedi cael llawdriniaeth ar ei llygaid ym Mangor a llawdriniaeth yn Ysbyty Whiston yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn y gorau iddi am iachâd llwyr a buan.

**YSGOL A CHOLEG**

Pob dymuniad da i gyn-aelodau'r Ysgol Sul sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ysgol a choleg ac sydd bellach yn symud ymlaen i addysg uwch neu waith. Peidiwch ag anghofio am eich cysylltiad â Shiloh!

**DIOLCH AM OEDFAON**

Diolch o galon i'r canlynol am ddod atom i Shiloh i arwain yr oedfaon: Y Parchedigion Philip Barnett, R.O. Jones, Dewi Morris, Megan Williams, Olaf Davies a'n gweinidog y Parchedig Ian Morris. Hefyd Eurfryn Davies, Ffion Rowlinson a Huw Tegid Roberts.

**RHAGHYSBYSIAD**

Bydd digwyddiad arbennig yma am 7.30 o'r gloch ar nos Sul, Tachwedd 24, sef Cymanfa Garolau gyda Cefin Roberts, Pentir, yn arwain. Yr unawdydd fydd Meinir Wyn Roberts, Caernarfon a bydd Côr Glanaethwy hefyd yn cymryd rhan. Bydd elw'r noson yn mynd at atgyweirio Eglwys Sant Cedol, Pentir. Cofiwch nodi'r dyddiad!
**GOHEBYDD .** GWENDA DAVIES



## *Bethel, Prestatyn*

**JAMBORÎ YR HAF**

Cynhaliwyd Jamborî i ddathlu diwedd tymor yr Ysgol Sul. Yr arweinydd oedd ein ffrind Dilwyn Price. Roedd digon o ganu, hwyl a chwerthin. I ddilyn, cawsom ginio ardderchog a baratowyd gan rieni'r Ysgol Sul. Diolch i bawb.





**DARLUN O'R GORFFENNOL**

Dyma lun o blant yr Ysgol Sul 34 mlynedd yn ôl, yn dilyn oedfa ar thema Heddwch yn y Byd. Mae hi mor braf gweld wynebau cyfarwydd ac rydym mor hapus fod cynifer o'r plant hyn yn dal i ddod ar fore Sul gyda'u plant hwythau.




**DYMUNIADAU GORAU**

Pob dymuniad da i bawb o'n haelodau sydd yn methu ymuno yn yr oedfaon oherwydd gwaeledd. Dymunwn wellhad buan i chwi.

**CINIO CYFEILLION PANED A SGWRS**

Mwynhaodd y grŵp Paned a Sgwrs ginio blasus mewn gwesty lleol yn ddiweddar. Cofiwch fod croeso cynnes, unrhyw fore Mercher am 10.00 o'r gloch, i bawb a hoffai ymuno am goffi a sgwrs.

**TYMOR NEWYDD**

Dymuniadau gorau i blant ac ieuenctid yr Ysgol Sul wrth iddynt gychwyn ar dymor newydd yn yr ysgol a llongyfarchiadau i'r ddau sydd wedi cael llwyddiant mawr yn eu harholiadau TGAU.
**GOHEBYDD .** GWENDA HUMPHRIES

## *Saron, Gwaenynog*

**AELOD NEWYDD**

Capel bach yw Saron yng nghefn gwlad Maldwyn dirion deg, rhwng pentref Dolanog a thref Llanfair Caereinion. Mae'r aelodau'n cyd-addoli ag aelodau Capel Coffa Ann Griffiths, Dolanog. Un o nodweddion amlycaf y capel bach hyfryd yma yw'r ffaith nad oes yno organ a chanu digyfeiliant sydd yn yr oedfaon. Os hoffech ymuno mewn gwasanaeth ychydig yn wahanol, mae croeso cynnes yn eich disgwyl chi yma!
Hyfrydwch mawr yn ddiweddar oedd cael derbyn Caryl Lewis yn gyflawn aelod yma yn Saron.
**GOHEBYDD .** Y PARCHEDIG EURON HUGHES





**Capel Ni**
**yn Eglwys Iesu**

## *Ebeneser, Eglwysbach*



**DIOLCH**
Da yw gweld bod y Parchedig Arglwydd Roger Roberts mor frwdfrydig ag erioed, ac yn barod iawn i ddod atom. Diolch am ei waith dros y blynyddoedd a gobeithio y cawn ei groesawu i Eglwysbach am flynyddoedd eto i ddod.
**GOHEBYDD .** CHARLES CRAPPER

## *Preswylfa, Cyffordd Llandudno*

**DIOLCH**
Bore Sul Medi 15fed yn ystod Sul Undebol y Gyffordd, cyflwynwyd tusw o flodau ac anrheg i Mrs Jane Jones gan ein gweinidog y Parchedig Marc Morgan, ar ei hymddeoliad ar ôl gwasanaethu am oddeutu 60 mlynedd fel organydd ym Mhreswylfa. Bu Jane hefyd yn athrawes Ysgol Sul ac yn swyddog i'r Clwb Cynilo am lawer o flynyddoedd. Mae ei ffyddlondeb i Breswylfa yn amhrisiadwy. Bydd yn chwith peidio â'i gweld wrth yr organ ond mae'n dda ei bod yn dal i allu mynychu yr oedfaon yn gyson gyda'i merched Marian a Siân. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn i chi, Jane.

**DYMUNIADAU GORAU**
Dymunwn wellhad buan i Gordon Evans sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio y cawn ei weld yn **ô**l gyda ni yn fuan wrth yr organ.
Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau a dymunwn ben-blwydd hapus arbennig i Mrs Marian Bond. Mwynha y dathlu, Marian!
**GOHEBYDD .** EIRIAN JONES



## *Soar, Cwm Nant y Fyllon*



Cynhaliwyd cyfarfod Diolchgarwch Soar, Cwm Nant y Fyllon ar nos Fercher 18 Medi.
Y Parchedig Euron Hughes oedd y gweinidog gwadd.



## *Shiloh Newydd, Rhiwlas*

**AELOD NEWYDD**
Derbyniwyd Osian Wyn Rowlands yn gyflawn aelod yn yr Eglwys Fethodistaidd ar nos Sul, 28 Gorffennaf, mewn gwasanaeth hyfryd, teimladwy a chofiadwy iawn a gynhaliwyd yng nghapel Shiloh Newydd, Tregarth. Wrth groesawu Osian yn gyflawn aelod dywedodd y Parchedig Philip Barnett ei bod yn fraint iddo gael derbyn gŵr ifanc fel Osian, a bod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers iddo dderbyn aelod newydd ifanc. Mae Osian yn ŵyr i'r diweddar Tom Gwyn Jones, a fu'n drysorydd Synod Cymru ac am dros ddeugain mlynedd yn oruchwyliwr Cylchdaith Môn ac Arfon.



**LLONGYFARCH**
Hoffem hefyd longyfarch Osian ar dderbyn canlyniadau Lefel A ardderchog ac ennill dwy ysgoloriaeth i astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Bangor. Pob dymuniad da iti, Osian.
**GOHEBYDD .** CAROL JONES

Capel Ni
yn Eglwys Iesu

## *Tabernacl, Llanfyllin*

**GWEITHREDU DROS BLANT**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yr elusen 'Gweithredu dros Blant' yn ystod mis Gorffennaf. Gwnaed casgliad o £157.50 at yr elusen. Yn ogystal â hyn anfonwyd swm o £274.88 (cynnwys y bocsys casglu) tuag at yr achos arbennig hwn. Diolchodd Keith a Decia Blacker i bawb am eu haelioni.

**BEDYDD**
Yn ystod yr haf cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Neli, merch fach Tom a Sarah Vaughan, Y Pwynt, gyda'r Parchedig Gwyndaf Richards yn gweinyddu. Pob bendith ar y teulu bach.

**GWELLHAD BUAN**
Mae amryw o'n haelodau wedi bod yn cwyno yn ystod y misoedd diwethaf. Bu Mr Gareth Lewis yn yr ysbyty a da yw deall ei fod yn well erbyn hyn. Dymuniadau gorau am wellhad i Mrs Decia Blacker sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau yn ogystal i Mr Roy Griffiths sy'n aros am driniaeth i'w gefn. Mae Mrs Hilda Evans yn gyson yn ein meddyliau, a hithau yn yr ysbyty ers rhai wythnosau. Cofiwn hefyd am Mrs Mair Ellis, sydd heb fod mewn iechyd da yn ddiweddar – er hynny mae'n fawr ei gofal dros y gwasanaethau sydd yn y Tabernacl. Diolch, Mair.

**GARDD AGORED**
Ar nodyn hapusach, cawsom brynhawn hyfryd yng ngardd newydd y Cross Keys ar brynhawn heulog o Awst. Agorwyd yr ardd newydd i'r cyhoedd er mwyn dathlu 10 mlynedd ers i Siân a Darren Mayor symud i'r Cross keys a chreu hwb cymunedol Cristnogol croesawgar i bawb yn y gymuned. Yn ystod y prynhawn llwyddwyd i godi dros £700 i elusen Gweithredu dros Blant. Diolch i Darren a Siân am yr holl baratoadau ac i bawb am eu cyfraniadau a'u rhoddion.
**GOHEBYDD .** ALWENA FRANCIS

# Rhan o araith y Parchedig Arglwydd Roger Roberts yn Nhŷ'r Arglwyddi, Gorffennaf 2024

Rydym yn byw mewn byd llawn ansicrwydd. Byd sydd i lawer yn llawn torcalon. Mae myrdd o bobl yn wynebu amgylchiadau dyrys iawn. Sut y gall y tŷ hwn helpu i greu gwell byd i drigolion y gwledydd? Ein braint ni yma yw gallu dylanwadu ar y byd lle rydym yn byw. I filiynau o bobl mae bywyd yn galed ac maent yn byw yng nghanol rhyfeloedd a newyn. Anghydfod heb ei ddatrys yn rhwygo eu gwledydd. Afiechydon na ellir eu gwella eto. Ni allant fwynhau bywyd. I filiynau o blant, nid yw'r byd yn lle addas i dyfu i fyny ynddo. Mae mor aml yn fyd rhanedig, gyda rhai yn elwa ond y mwyafrif llethol yn colli. I rai mae cyfoeth gormodol yn fwrn. Eraill heb ddim. Miliynau yn wylo wrth iddynt hwy a'u plant lwgu.

Newyddion ardderchog yw fod y Bibby Stockholm i ddod i ben ym mis Ionawr. Hefyd, y cyhoeddiad gan y llywodraeth newydd, fod yr hediadau i Rwanda yn dod i ben. Mae gan y tŷ hwn y gallu i sicrhau newid gwirioneddol a fydd yn arbed bywydau. A beth sydd i rwystro'r Deyrnas Unedig rhag bod yn bŵer sy'n newid y byd er gwell? Tŷ yw hwn sy'n llawn cyfle a gobaith.

# Dim lle yn y llety?

Bydd llawer iawn ohonom yn dathlu'r Nadolig eleni mewn heddwch gan rannu anrhegion a mwynhau llawenydd a thangnefedd yr Ŵyl.

Wrth i ni roi diolch am ein bendithion, gadewch i ni gefnogi ein cymdogion byd-eang ble nad oes lle yn y llety eleni. Teuluoedd sydd yn goroesi pob dydd mewn gwersylloedd i ffoaduriaid yn aros am heddwch.

Mae angen ein cefnogaeth ar deuluoedd fel teulu Shede y gwelwch ei llun yma, er mwyn medru gwarchod eu plant rhag diffyg maeth a llwgu. Gall ein rhoddion y Nadolig hwn ariannu prydau bwyd maethlon, meddyginiaeth, blancedi a hanfodion syml eraill.

Does neb yn dewis bod yn ffoadur, ond gyda'n gilydd gallwn gefnogi teulu fel un Shede i greu bywyd newydd wrth aros diwedd rhyfel.

Mae Shede yn wreiddiol o El-Daein yn Darfur, Sudan. Yn briod gyda thair merch, yr ieuengaf yn chwech oed. Gweithio mewn tŷ bwyta oedd Shede ac roedd ganddi fferm lysiau organig. Yn Ebrill 2023 newidiodd popeth wrth i wrthdaro rwygo drwy Sudan a theulu Shede. O fewn misoedd roedd Shede wedi colli ei brodyr a'r bywyd roedd hi wedi ei adeiladu.

'Chwalwyd cartrefi gan fomiau ar ddechrau'r gwrthdaro. Doedd dim bwyd ar gael. Roedd yr amgylchiadau yn anodd iawn i ni' meddai hi.

Teithiodd y teulu mewn bws i ganolfan ffoaduriaid Wedweil. Yna, gan sylweddoli pa mor anodd oedd dod o hyd i waith yno, fe aeth y ddwy ferch hynaf ymlaen ac erbyn hyn maen nhw'n gweithio mewn tŷ bwyta. Mae Shede, y ferch ieuengaf a'r wyres yn parhau yn y gwersyll ac wedi gadael popeth ar ôl.

'Gadewais bopeth ar ôl. Cyrraedd gyda dim ond ein dillad. Dim bwrdd, dim tebot, dim cadair, dim gwely. Dim. Gadewais bopeth ar ôl.'

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio gyda 4550 o bobl yng Ngwersyll Wedweil gyda'n partner Smile Again Africa Development Organisation (SAADO) i gynnal teuluoedd fel un Shede gyda chymorth ariannol.


Wrth i ryfel rwygo Sudan mae mwy a mwy o deuluoedd yn cyrraedd Wedweil bob dydd. Gyda chynifer yn cyrraedd heb eiddo, does dim dwywaith bod y gefnogaeth y mae'r rhaglen yn ei chynnig yn achub bywydau.

Heb y gefnogaeth ni all y teulu brynu bwyd maethlon cyn i ddiffyg maeth effeithio ar iechyd y teulu.

Heb y gefnogaeth ni all y teulu brynu meddyginiaeth hanfodol. Heb y gefnogaeth ni all y teulu brynu blancedi, sebon, dillad a phopeth sydd ei angen ar gyfer iechyd a hylendid.

Wrth i Shede edrych i'r dyfodol, hoffai gynilo er mwyn prynu offer coginio. Wrth gofio ei bywyd yn Sudan yn tyfu bwyd a gweithio yn y tŷ bwyta, mae Shede yn gwybod mai dyma fydd ei bywoliaeth eto yn y dyfodol. Os bydd modd sicrhau'r eitemau yma yna bydd Shede yn sicr o adeiladu gwell dyfodol iddi hi a'r merched.

Ymunwch gyda ni y Nadolig hwn i gyfrannu a gweddïo dros y gwaith er mwyn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau teuluoedd sydd yn cyrraedd gwersylloedd ffoaduriaid.



**Cewch fwy o wybodaeth yn fuan ar ein gwefan neu drwy gysylltu â mi ar: lroberts@cymorth-cristnogol.org**

# Apêl Casglu Anrhegion

Action for Children
Gweithredu dros Blant





## Mae'r Nadolig ar y ffordd.
## Mae ar Siôn Corn angen eich help eto eleni.

Mae Gweithredu dros Blant yn rhedeg sawl prosiect ac ar adeg y Nadolig daw cyfle i roi anrheg i'r plant/pobl ifanc. Rydym yn derbyn anrheg(ion) i blentyn/person ifanc (o 0 i 25 oed) na fydd efallai yn cael anrheg unrhyw adeg arall o'r flwyddyn.

Dyma enghreifftiau o bethau y gellir eu rhoi:

- Gemau Bwrdd – i bob oedran. Llyfrau.
- Jigsôs – i bob oedran. "Selection boxes".
- Llyfrau Lliwio.
- Deunydd Lliwio / Crefft.
- Nwyddau ymolchi – i bobl ifanc. Sanau.
- Cardiau Rhodd (Gift Cards) x £5.

*Gofynnir yn garedig i chi beidio â lapio'r anrhegion.*

**Am fwy o fanylion cysylltwch â:**

Y Parchg. Marc a Mrs Margaret Morgan

Llety'r Bugail, 1 Cwrt Eden, Gwersyllt, Wrecsam, LL11 4FF

☎ 01978 756717
cwrteden@gmail.com

BYDD EU HANGEN ERBYN Y SUL CYNTAF YM MIS RHAGFYR